

|                       |                                                                                                                                                                                                                        |                         |                                              |                           |                                 |
|-----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------|----------------------------------------------|---------------------------|---------------------------------|
| Enw'r Hyfforddai      | Megan Llewellyn                                                                                                                                                                                                        | Cyfeirnod y sesiwn:     | Dyddiad: 13/01/2020                          | Dosbarth: 1               | Cynllun Ffocws y Cyfnod Sylfaen |
|                       |                                                                                                                                                                                                                        |                         | Nifer y dysgwyr: 28                          | Oed: 5 - 6                |                                 |
| Nodau/bwriadau dysgu: | Defnyddio'r cysyniad o amser yn rhan o'u weithgareddau dyddiol, wythnosol ac mewn ffordd o'r thymhorau'r flwyddyn. Defnyddio unedau amser safonol i ddarllen 'o'clock' gan ddefnyddio clociau digidol analog a 12 awr. | Meini prawf llwyddiant: | I ehangu dealltwriaeth o'r cysyniad o amser. | Ateb anghenion y dysgwyr: |                                 |

| Tasgau cyflwyniad/diwedd glo                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Prif weithgareddau                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Adnoddau/<br>Geirfa Allweddol                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Asesu ar gyfer<br>Dysgu<br>(cyfleoedd a'r strategaethau a ddefnyddiwyd)                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>Cyflwyniad</p> <p>Wrth ddilyn o'r wers blaenorol, atgoffa'r plant am y geirfa a wnaethon ddysgu yn y wers blaenorol.</p> <p>Darllen llyfr 'Tick-Tock Clock Book' i'r plant yn amser cylch. Dangoswyd y llyfr yma'r cysyniad o amser wrth i'r 'Tedi' sôn am ei trefn ddyddiol.</p> <p>Wrth ddarllen y llyfr, byddaf yn gofyn cwestiynnau i cael y plant i feddwl.</p> <p>Pa llaw sydd yn dangos yr awr ?</p> | <p>Defnyddio cardiau flach sy'n arddangos gweithgareddau. Tasg y plant yw i drefnu'r cardiau mewn dau grwp, y gweithgareddau byddwn yn gwneud cyn ac ar ôl ysgol er mwyn ehangu dealltwriaeth y plant o'r cysyniad o trefn y dydd.</p> <p>Er enghraifft amser ymolchi, gwely, gwisgo, cinio a chwarae.</p> <p>Byddaf yn dosbarthu tabl, cardiau flach er mwyn cwblhau'r tasg yma. Unwaith bod pob grwp wedi cyflawni'r dasg, byddai'n gofyn cwestiynnau iddyn nhw er mwyn datblygu eu sgiliau feddwl.</p> <p>Y brif dasg bydd i cyflawni'r taflen waith o rhesymu a datrys problemau dros gweithgareddau cyn ac ar ôl.</p> <p>Felly, y rhan cyntaf yw i darlunio beth mae Sali Mali yn ei ddisgrifio. Cyn bod y plant yn gwneud hyn, byddaf yn esbonio a thrafod y taflen waith gyda nhw.</p> <p>Yr ail rhan i'r taflen waith yw i sicrhau bod y plant yn deall y cysyniad o cyn ac ar ôl. Byddaf yn gadael y plant i cwblhau'r ail rhan yn annibynnol er mwyn i nhw ddefnyddio eu ddychymyg.</p> <p>Wrth cwblhau'r gweithgareddau yma yn gywir, fe allai asesu'r plant i weld os byddwn wedi deall y cysyniad o trefn diwrnod.</p> | <p><b>Geirfa Allweddol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Amser.</li> <li>• O'r gloch.</li> <li>• Cloc.</li> <li>• Cwarter – wedi.</li> <li>• Hanner – wedi.</li> <li>• Cynllun.</li> </ul> <p><b>Adnoddau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cardiau Flach.</li> <li>• Cloc.</li> <li>• Taflen Waith.</li> <li>• Llyfr 'Tick-Tock Clock Book'.</li> <li>• Bwrdd gwyn.</li> <li>• Clociau ymarfer bach.</li> <li>• Pensiliau lliw.</li> </ul> | <p>Fel rhan o'r diwedd glo, byddai'n adnewyddu meddyliau'r plant wrth ysgrifennu enwau'r diwrnodau ar y bwrdd gwyn i weld os eu bod nhw'n adnabod y diwrnodau.</p> <p>Cwestiynnu er mwyn asesu ar gyfer dysgu, byddaf yn gallu mesur dealltwriaeth y disgyblion ar ôl y sesiwn yma.</p> <p>Ar ôl ac yn canol y gweithgareddau, byddai'n gofyn cwestiynnau er mwyn cael y plant i feddwl ac maent yn cyfle i nhw gofyn cwestiynnau i mi.</p> <p>Gallai weld os mae'r disgyblion wedi deall pwrpas y wers wrth gwneud y gweithgareddau yma.</p> |
| <p>Diwedd glo</p> <p>Byddaf yn cwestiynnu'r plant wrth i'r wers ddod i ben er mwyn asesu nhw.</p> <p>Pa diwrnod yw hi?</p> <p>Pa diwrnod oedd hi ddoe?</p> <p>Pa diwrnod bydd hi yfory?</p> <p>Os mae'n Dydd Mercher heddiw, pa diwrnod bydd hi yfory?</p>                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| <p>Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod a sgiliau)</p> <p><b>Canllawiau Statudol Mathemateg a Rhifedd</b> – 'Yr hyn sydd yn bwysig'.</p> <p>Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasau sy'n ymwneud â phriodweddau siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.</p>                                                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                     |            |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------|
| <b>Deilliannau Cyflawniad –</b> (Cam Cynnydd 2) Gallaf ddweud yr amser ar gloc analog (mewn cyfnodau o 15 munud) a gallaf gysylltu hyn â'r amser ar ffurf ddigidol. Rwyf wedi archwilio ac wedi defnyddio gwahanol ffyrdd o ddangos treigl amser, gan gynnwys calendrau, llinellau amser, amserlenni syml a rhestrau digwyddiadau.<br>Wrth cwblhau'r gweithgareddau yn y wers yma, creda bydd y disgyblion yn cwrdd â'r cam cynnydd yma. |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                     |            |
| <b>Llythrennedd ( FfLIRh)</b><br>I sicrhau bod yna llafaredd yn cael eu ddatblygu ar draws y cwricwlwm, mae'r gweithgareddau darllen, ysgrifennu yn hybu hyn.<br><br>Wrth ddarllen y taflen waith bydd y plant yn datblygu eu sgiliau darllen, ac ehangu eu eirfa.                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | <b>Rhifedd (FfLIRh)</b><br>Adnabod trefn y ddiwrnodau. Ddod yn gyfarwydd â beth sydd yn digwydd cyn ac ar ôl gweithgareddau.<br>Dechrau i adnabod cysyniad o amser. |            |
| <b>FfCD</b><br>Mae'r disgyblion yn rhyngweithio a chydweithio wrth i nhw categoreiddio'r cardiau flach mewn i ddau grwp.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | <b>Meddwl</b><br>Bydd rhaid i'r plant feddwl pwy categori bydd pob carden flach yn mynd ynddo, y categori cyn neu ar ôl ysgol.<br>Holi'r plant ynglŷn â'r dasg, wrth gwneud hyn maent yn datblygu eu sgiliau meddwl.<br>Gan gyfeirio at Tacsonomi Bloom, bydd y plant yn anelu at y ddau lefel cyntaf gan ateb fy nghwestiynnau yn gywir a deall y gweithgareddau wrth cofio beth maent wedi dysgu a defnyddio'r dealltwriaeth yma i chyflawni'r tasgau.<br>Wrth cwblhau'r taflen waith, bydd rhaid i'r disgyblion feddwl am y camau nesaf yn y weithgaredd er mwyn darlunio'r llun cywir. | <b>ADCDF</b>                                                                                                                                                        | <b>YCC</b> |

# Taflen Waith – Amser

Mae Sali Mali yn disgrifio ei ddydd...tybed beth mae hi'n gwneud ?



Helo, enw fi yw Sali Mali. Fi wedi bod  
yn brysur iawn heddiw !


Yn gyntaf, wnes i coginio cacen i Jac y  
Jwc. Wedyn, wnes i rhoi bwyd i Jac y  
Do. Yn olaf, wnes i fynd am dro gyda  
Jac y Jwc.

Tynnwch llun i ddisgrifio beth wnaeth Sali Mali yn gyntaf, ail ac yn olaf...



Mae Sali Mali yn coginio cacen...tynnwch llun o beth all digwydd cyn ac  
ar ôl y llun yma.






**Brwsio Dannedd**



**Gwisgo**



**Amser Brecwast**



**Amser Gwely**



**Darllen Stori**



**Amser Ymolchi**

**Cyn Ysgol**

**Ar ôl Ysgol**

## Rhan 2 - Adnodd

Yr adnodd yr wyf wedi dewis er mwyn dysgu a chynhyrchu yw'r gweithgaredd o drefnu'r cardiau fflach. Pwrpas y cardiau fflach yw sicrhau bod y disgyblion yn deall y cysyniad o Gyn ac Ar ôl gweithgareddau. Byddai'n darparu taflennu gwaith, mat a chardiau fflach. Mae'r dasg yma yn un o'r prif weithgareddau yn fy ngwers, byddai'n gofyn y plant i ymuno mewn grŵp er mwyn cymryd rhan yn y dasg. Tasg y plant yw adnabod y gweithgareddau ar bob carden fflach a gweithio gyda'i chyfoedion i drefnu'r cardiau mewn i ddau categori, gweithgareddau sydd yn digwydd cyn ac ar ôl ysgol. Ar y cardiau fflach, mae lluniau o amser gwely, gwisgo, darllen stori, brecwast, ymolchi ac amser cinio. O flaen llaw, byddai'n esbonio'r cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn sicr o beth maent yn gwneud.

Wrth fod y plant yn dechrau'r gweithgaredd, dechreuwn i feddwl pa garden fflach sydd yn mynd yn ba ochr o'r tabl. Rwy'n dychmygu iddyn nhw roi'r garden gwisgo, bwyta brecwast, brwsio dannedd yn y categori cyn yr ysgol. Ond, yn y categori ar ôl ysgol rwy'n dychmygu iddyn nhw roi'r amser ymolchi, darllen stori, brwsio dannedd ac amser gwely. Dangoswyd enghraifft o fel dyled y gweithgaredd disgwyl isod.

Mae'r gweithgaredd yma yn rhoi cyfle i'r plant datblygu eu sgiliau feddwl felly allwn ddilyn a chyfeirio at hierarchaeth Tacsonomi Bloom. Diffiniwyd Heick (2020) yr hierarchaeth "Bloom's Taxonomy is a hierarchial ordering of cognitive skills that can, among countless other uses, help teachers teach and students learn". Felly, wrth ymhelaethu o'r dyfyniad hon allwn gasglu bod yr hierarchaeth yma yn gymorth wrth i mi gynllunio'r wers. Mae'n fframwaith i mi ddilyn er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn y wers yn fuddiol i'r disgyblion ac yn datblygu eu sgiliau feddwl. Yn hytrach na hyn, maent yn gymorth i'r plant gan eu bod yn fframwaith iddynt hwy ddilyn heb wybod a gallwn fynd i fynnu'r hierarchaeth.


Penderfynais ychwanegu gweithgaredd grŵp yn fy ngwers gan ei fod yn hybu sgiliau cyfathrebu, gweithio gydag eraill ac yn rhoi cyfle iddyn nhw rannu rôl. Cawn gyfle i ddatrys problemau ar ben ei hun a rhannu ei syniadau a chawn gyfle i ddatrys problemau gyda'i chyfoedion. Maent yn bwysig bod plant yn deall ffyrdd o weithio gydag eraill a rhannu cyfrifoldeb. Dywed Smith (2006) "Pupils learned to be more independent and communicate better with each other". Wrth i blant gweithio gydag eraill, gwelwn welliant wrth iddyn nhw gydweithio a rhannu syniadau yn well ac yn rhoi tro i bobl eraill sydd yn eu grŵp. Creda Vygotsky, damcan o ddysgu cymdeithasol, "He suggested that learning takes place through the interactions students have with their peers" Neff (d.d.) Felly, allwn gasglu bod yna pwysigrwydd mewn gweithio mewn grŵp gan ei bod yn datblygu eu sgiliau.

Fodd bynnag, gall gweithio mewn grŵp datblygu gymaint o sgiliau cyffredinol yn hytrach na sgiliau llythrennedd a rhifedd. Wrth i blant gweithio gydag eraill maen nhw'n datblygu sgiliau siarad a gweithio gydag eraill. Ond, mae gweithio mewn grŵp yn gyfle i ddisgyblion i ddatblygu eu hyder mewn dosbarth wrth ateb cwestiynau, rhannu eu barn neu yn gyffredinol i siarad o flaen y dosbarth. Efallai bod rhai plant yn teimlo'n nerfus, dihyder wrth ateb cwestiynau neu wneud tasgau annibynnol. Felly, mae gwaith grŵp yn gyfle perffaith ac addas i blant i ddatblygu'r sgiliau yma. Gall lleihau teimlo straen yn y dosbarth ac yn gwneud nhw teimlo'n fwy cyfforddus.

Y Brif Weithgaredd - Enghraifft a Cyfarwyddiadau.

Cyn Ysgol


Ar ôl Ysgol



**Brwsio Dannedd**



**Darllen**



**Amser Brecwast**




**Gwisgo**



**Amser Ymolchi**



**Amser Gwely**



**Brwsio Dannedd**

Dyma'r enghraifft o'r weithgaredd Cardiau Fflach yn cael ei weithredu. Mewn grwp, dyled y plant gweithio gyda'i gilydd er mwyn penderfynnu pa cardiau fflach sydd yn mynd yn y categori cywir yn y tabl yma. Wrth gwneud y tasg yma, mae nhw'n deall y cysyniad o cyn ac ar ôl digwyddiadau.

### Rhan 3 - Cyfiawnhad o'r Cynllun Wers

Wrth adlewyrchu yn ôl ar fy nghynllun wers, byddaf yn cyfeirio at yr wyth nodwedd bwysicaf creda sydd yn benodol, yn dilyn arfer proffesiynol da a syniadau damcaniaethwyr. Yn gyntaf, hoffwn sôn amdan y rhesymwaith ynglŷn ag amcanion dysgu. Mae amcanion dysgu yn rhoi pwrpas ac eglurder i'r disgyblion wrth iddyn nhw ddechrau dysgu. Disgrifiodd Meghan Everette (2017) y manteision o amcanion dysgu, "objectives focus the purpose of your lesson and subsequent planning". Mae'r dyfyniad hon yn awgrymu bod yna werth yn cynnwys amcanion dysgu mewn gwrs. Maent yn rhoi gymaint o gyfleoedd i'r disgyblion anelu at eu potensial ac i ddeall peth sydd angen iddynt gyflawni mewn gwrs. Er gwaethaf, mae amcanion dysgu yn fudd i athrawon hefyd gan eu bod yn cymorth i asesu'r plant ac yn strategaeth Asesu ar Gyfer Dysgu. Adnabuwyd amcanion dysgu fel yr hyn yr hoffai athrawon bod disgyblion wedi dysgu erbyn diwedd sesiwn er mwyn mesur gwybodaeth a dealltwriaeth plentyn.

Yr ail nodwedd bwysig hoffwn sôn am yw gwerth weithgaredd cyflwyniad mewn gwrs. Creda bod gweithgaredd cyflwyniad yn darparu diddordeb a chymhelliant yn syth i'r disgyblion. Yn ogystal â hyn maent yn argyhoeddi'r plant y byddwn yn dysgu o'r wers a bydd yn fudd iddynt. O fewn fy nghyflwyniad, byddaf yn darllen stori i'r disgyblion, enw'r stori yw 'Tick-Tock Clock Book'. Pwrpas darllen y llyfr yma yw pwysleisio'r pwysigrwydd o ddweud yr amser ym mhob dydd ac i ddeall trefn y dydd. Fel arfer, mae llawer o athrawon yn debygol o gychwyn eu gwrsi gyda deilliannau dysgu. Hyd yn oed mae gymaint o argymhellion a thystiolaeth sydd yn cefnogi'r syniad yma ond creda eraill yn wahanol. Yn ôl adroddiad OfSted 2012 'Made to Measure', maen nhw'n tynnu sylw at arfer dda sydd yn cynnwys gwrs sydd heb ddeilliannau dysgu i gychwyn y wers. Dywed Ofsted (2012) 'until later in the lesson, at which point they challenged the pupils to articulate for themselves what they have learned'. Wrth ymhelaethu ar y dyfyniad hwn, cawn argraff bod y plant yn gallu penderfynu yn annibynnol am beth hoffwn dargedu eu hun. Yn ystod darllen y llyfr i'r disgyblion, byddaf yn gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau bod y plant yn ymgysylltiedig â'r wers. Dangoswyd diddordeb yn drefn diwrnod y plant tu allan o'r ysgol, er enghraifft yn y bore ac yn y nos. Wrth ofyn y cwestiynau yma, byddaf yn disgwyl atebion fel bwyta brecwast, gwisgo yn barod i'r ysgol yn y bore ac yn gwneud gwaith cartref, cael cawod a mynd i'r gwely yn y nos.

Y nodwedd olaf y byddaf yn siarad ynglŷn ag yw darllen llyfr fel rhan o'n gyflwyniad. Byddaf yn darllen llyfr sydd yn esbonio'r cysyniad o drefn y diwrnod. Wrth ddarllen y llyfr yma bydd y plant yn debygol o ddod i'r arfer o wahanol amseroedd mewn dydd. Datblygwyd y disgyblion eu sgiliau llythrennedd a rhifedd wrth i ni ddarllen y llyfr yma gyda'n gilydd fel dosbarth. Caiff y plant cyfle i ofyn cwestiynau wrth i ni ddarllen y llyfr, wrth wneud hyn maent yn pwysleisio eglurder iddynt. Soniwyd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd 2008 y sgiliau dyled plant Blwyddyn Un ddatblygu wrth iddynt wrando yn y dosbarth. Un elfen o dan y llinyn yma yw "Dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth". Yn ogystal â hyn, bydd y dysgwyr yn gallu "ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer" (Y Llywodraeth Cymru, 2008) Mae darllen llyfr i'r dosbarth yn ffordd o ddarparu diddordeb a chymhelliant yn syth i'r disgyblion. Yn hytrach na hyn, cawn ragarweiniad o beth maent yn mynd i ddysgu yn y wers ganlynol.

Nodwedd allweddol eraill yr wyf wedi cynnwys yn fy ngwers yw darllen llyfr i'r disgyblion trwy'r dechneg amser cylch. Pwrpas amser cylch yw cynyddu hunan-barch unigolyn, yn diwygio sgiliau gwranddo a siarad plentyn wrth iddyn nhw gael cyfle i gyfathrebu a thrafod gyda'i chyfoedion. I gefnogi'r pwynt yma, "Self-Esteem definitely increases as they feel valued and they are not laughed at or commented on." (Taylor, 2003, p. 39) Mae'r dechneg dysgu yma yn hybu hyder a mwynhau. Caiff y plant dealltwriaeth o fel mae eu hagwedd yn effeithio eraill, felly maent yn bwysig bod y plant yn gwranddo ar eraill. Dywed Kent County Council (2016) "Where Circle Time is developed across the key stages, in a planned developmental way, many teachers report that it makes significant impact, in developing children's skills and attitudes. Even the most challenging children respond to Circle Time and find it a very positive, empowering experience". Fel rhan o'n gyflwyniad, creda bod darllen llyfr mewn techneg amser cylch effeithiol iawn er mwyn ennyn diddordeb y plant. Wrth ddarllen y llyfr Tick Tock Clock Book gyda'r dosbarth maent yn rhoi cyfle iddyn nhw ymarfer amseroedd syml mewn diwrnod gan fod cloc bach yn y llyfr. Mae'r stori yn esbonio trefn diwrnod pob cymeriad felly caiff y plant awgrym o weithgareddau penodol sydd yn digwydd mewn amseroedd penodol mewn diwrnod. Gall y plant defnyddio'r wybodaeth maent wedi eu dysgu o'r llyfr yma yn y gweithgareddau dilynol yn y wers. Wrth i mi fod yn rhan o'r amser cylch hefyd, creda bod yn bwysig i mi fod yn rôl model i'r plant. Wrth ymchwilio, noda (SAGE, 2007, tud. 10) "The Teacher has a large measure of responsibility for both setting the tone in the circle session, and modelling the beliefs, behaviours, attitudes and skills that the students need to be part of an effective, functioning group." Gallwn ddeall bod dylanwad enfawr ar y plant ynglŷn â fy agwedd. Creda bod amser cylch yn nodwedd bwysig mewn gwrs cyfnod sylfaen gan ei fod yn amser i'r plant mwynhau'r sesiwn, cyfle iddyn nhw gwestiynu unrhyw beth sydd ar eu meddwl ac adlewyrchu. Yn ogystal â rhain maent yn ffordd syml iddyn nhw ddod i ddeall y cysyniad o amser wrth gymryd rhan yn y gweithgaredd penodol yn fy ngwers. Un dyfyniad sydd yn esbonio hyn yw, "If a child does not learn the way you teach, then teach him the way you learn" (Chasty, 1997 *cited in* Grigg, 2015)

Y nodwedd ganlynol yw'r rhesymwaith ynglŷn â chynnwys gweithgaredd asesu ar gyfer dysgu. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2010) "Yn y bôn, mae asesu ar gyfer dysgu yn ymwneud â darganfod y man y mae dysgwr wedi'i gyrraedd, gwybod ac egluro'r man y mae angen i'r dysgwr anelu ato, ac yn bwysicaf oll, dangos i'r dysgwr sut i gyrraedd y man hwnnw". Maent yn hanfodol bod yna gymaint o gymorth ar gael i'r disgyblion er mwyn iddyn nhw ddatblygu a symud ymlaen at y cam nesaf. Yr wyf wedi cynnwys strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn fy nghynllun wers i wrth i holi cwestiynau i'r disgyblion ynglŷn â'r dyddiau'r wythnos, wrth i'r plant cwblhau'r tasgau yn y wers byddaf yn sicrhau bod yna digonedd o amser iddyn nhw feddwl ac i ofyn cwestiynau i mi os maent yn ansicr. Ni fyddai'n rhannu'r amcanion dysgu gyda'r disgyblion ar ddechrau'r wers gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig iddynt benderfynu yn annibynnol o beth maen nhw'n credu bod nhw wedi eu dysgu. Felly, gall y disgyblion feddwl, hunan asesu ac adlewyrchu yn ôl ar bob peth maent wedi dysgu yn y wers benodol yma. I atgyfnerthu fy mhwynt, cytuna'r Llywodraeth Cymru (2010) yn llwyr wrth iddyn nhw sôn, "Mae'n hybu dealltwriaeth o nodau a meini prawf llwyddiant fel bod y dysgwyr yn deall yr hyn y maen nhw'n ceisio'i gyflawni ac yn awyddus i'w gyflawni".

Y pumed nodwedd bwysig hoffwn sôn amdau yw'r rhesymwaith dros sgiliau llythrennedd a rhifedd. Yn fy nghynllun wers mae yna ddigonedd o gyfleoedd i'r plant

datblygu amrediad o sgiliau. Datblygwyd y Llywodraeth Cymru fframwaith ynglŷn â sgiliau llythrennedd a rhifedd yn y flwyddyn 2013. Dangoswyd y fframwaith y safonau dyled pob unigolyn fod ym mhob oedran. Gan flwyddyn un yr wyf wedi ffocysu fy ngwers arno, dyma'r camau cynnydd y byddaf yn canolbwyntio arno. Esboniwyd y fframwaith llythrennedd a rhifedd beth all pob plentyn gwneud. Er enghraifft, un llinyn yr wyf wedi cynnwys yn fy ngwers yw sicrhau bod yna llafaredd ar draws y cwricwlwm. Wrth fod y plant yn cymryd rhan yn y gweithgaredd o drefnu'r cardiau fflach maent yn datblygu'r elfen o "Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau" wrth 'chydweithio a thrafod'. Y Llywodraeth Cymru 2013 (*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013*). Yn ôl y fframwaith llythrennedd a rhifedd, mae dysgwyr yn gallu "cyfrannu i sgysiau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o'u hysgogi" " Y Llywodraeth Cymru 2013 (*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013*). Wrth i'r plant cymryd rhan yn y gweithgaredd â'r cardiau fflach cawn gyfle i gyfathrebu â'u cyfoedion. Maent yn debygol o gyflawni'r elfen yma gan eu bod yn trafod, datrys problemau, gweithio fel tîm. Yr ail elfen yw "Cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud" Y Llywodraeth Cymru 2013 (*Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol 2013*). I ychwanegu at fy mhwynt cyntaf, bydd y gweithgaredd yn fy ngwers yn sicr yn anelu at yr elfen yma gan fod cyfle iddyn nhw weithio gydag eraill ond yn ogystal â hyn, cawn gyfle i drafod am beth maen nhw'n gwneud wrth i mi holi nhw ynglŷn â'r gweithgaredd fel ffordd o Asesu ar Gyfer Dysgu. Creda bod y fframwaith llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ganllaw ddefnyddiol iawn i athrawon er mwyn anelu at y targedau ac i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfleoedd i dangos ei photensial yn y dosbarth.

Ymysg fy nghwers, yr wyf wedi cynnwys cwestiynu'r disgyblion ynglŷn â'r gweithgareddau, y pwnc ac yn gyffredinol eu dealltwriaeth. Creda bod cwestiynu disgyblion yn bwysig iawn ac yn hanfodol er mwyn darganfod unrhyw broblemau sydd gan y plant, gallaf ddeall os oes unrhyw bryderon gyda nhw ynglŷn â'r pwnc yr wyf wedi dysgu yn y wers yma. Yn ôl (Gershon, 2014) "Open questions encourage students to be more independent because they do not presuppose a single, definite answer". Wrth ymhelaethu ar y dyfyniad hwn, caiff y plant cyfle i fod yn annibynnol wrth ymateb â'r cwestiynnau yr wyf yn gofyn iddynt. Creda bod yna gymaint o bwysigrwydd mewn cwestiynu'r disgyblion, wrth wneud hyn byddai'n cael awgrym o ddealltwriaeth y plant ar ôl y wers, os eu bod wedi deall bwriad y wers, wedi deall a chyflawni'r amcanion dysgu. Os bod y plant yn ymateb ag unrhyw bryderon o beth maent wedi eu dysgu, byddaf yn ymwybodol o beth sydd angen i gynnwys yn y wers y tro nesaf. Efallai bydd rhaid i ail-wneud rhai gweithgareddau er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd ag amseroedd yn y diwrnod. Datblygwyd Madeline Hunter model cynllunio gwersi, maent yn cynnwys wyth cam. Un o'r camau yma yw i 'Wirio am Ddealltwriaeth' felly mae'r damcan yma yn berthnasol i Asesu ar Gyfer Dysgu gan ei fod yn pwysleisio'r pwysigrwydd o'r dechneg dysgu yma. Dywed Hunter (d.d.) "It is important to make sure the students understand was was presented. One way this can be done is by asking students questions".

Y saithfed nodwedd y byddaf yn sôn amdan yw'r pwysigrwydd dros Tasgau Annibynnol yn y dosbarth. Caiff y disgyblion chyfle i weithio yn annibynnol yn y wers wrth cyflawni'r taflen waith a chawn. Mae hyn yn rhoi cyfle i nhw ddarllen, datrys problemau, datblygu sgiliau ac i feddwl yn annibynnol. Fel sonwyd yn y canllawiau statudol y Cwricwlwm Cenhedlaethol 2022, "Mae angen cynnig cyfleoedd i ddysgwyr weithio'n annibynnol ac i gydweithredu er mwyn adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn ystod y blynyddoedd cynnar" (Y Llywodraeth Cymru, 2019) Wrth i mi gynllunio'r wers

yma, wnes i sicrhau bod yna digonedd o elfennau sydd yn cyswllt â'r Cwricwlwm Cenhedlaethol sydd i ddod yn y dyfodol. Disgrifiodd Mark Steed (2013) pwysigrwydd annibynniaeth yn y dosbarth fel "Independent learning is important because it develops creativity and intellectual curiosity". Wrth i'r plant gwneud y taflen waith, mae'n nhw'n feddwl ac yn gweithio yn annibynnol. Mae'n nhw'n cael y cyfle i feddwl am atebion unigryw eu hun.

Yn olaf, wrth adlewyrchu yn ôl ar fy nghynllun wers, gallwn weld bod yna ddigonedd o chyfleoedd ar gyfer dysgu ac i ddatblygu sgiliau newydd. Deallwn fod yna gweithgareddau yn y wers yn hybu dealltwriaeth y disgyblion amdan y cysyniad o trefn eu ddiwrnod, deall cysyniad o cyn ac ar ôl.

## Rhestr Cyfeirnod

The Guardian (2017) *Teacher's : Here's how to get your lessons off to a flying start.* Ar gael : <https://www.theguardian.com/teacher-network/2017/jun/07/teachers-heres-how-to-get-your-lessons-off-to-a-flying-start> (Darllenwyd : 08/01/2020)

Everette, E. (2017) 'The Hidden Power of Learning Objectives', Top Teaching Today [Blog]. 18 Hydref. Ar gael yn: <https://www.scholastic.com/teachers/blog-posts/meghan-everette/17-18/The-Hidden-Power-of-Learning-Objectives/> (Darllenwyd : 09/01/2020)

Y Llywodraeth Cymru (2010) *Pam y mae angen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell dosbarth?* Ar gael yn : <https://hwb.gov.wales/storage/2b5cc5e1-489b-444c-a8b3-253d2c75912a/pam-y-mae-angen-datblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf> (Darllenwyd : 10/01/2020)

Tew, M. Read, M a Potter, H (2007) 'Assessing the Value of Circle Time in Secondary School' yn SAGE (gol.) *The Theory behind Circle Time.* Llundain.

Y Llywodraeth (Cymru) 2013. Ar gael yn : [https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/#eyJpIjpbeYJhIjoxfSx7ImEiOjB9XSwiYl6W3siYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MX0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MX0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MX0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9XX0=](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol-fersiwn-cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith/#eyJpIjpbeYJhIjoxfSx7ImEiOjB9XSwiYl6W3siYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MX0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MX0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9LHsiYSl6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOjB9XX0=) (Darllenwyd : 12/01/2020)

Gershon, M. (2014) 'How to develop independent learners', Tes Resources, d.d. Ar gael yn : [https://www.tes.com/sites/default/files/tes\\_strategies\\_to\\_develop\\_independent\\_learners.pdf](https://www.tes.com/sites/default/files/tes_strategies_to_develop_independent_learners.pdf) (Darllenwyd : 10/01/2020)

Steed, M.S. (2013) 'The importance of Independent Learning', An Independent Head [blog]. 4ydd o Orffennaf. Ar gael yn : <http://independenthead.blogspot.com/2013/07/independent-learning.html> (Darllenwyd : 11/01/2020)

The Madeline Hunter Model of Mastery Learning (d.d.)  
<https://www.csun.edu/sites/default/files/Holle-Lesson-Planning.pdf>

Heick, T. (2020) *What is Bloom's Taxonomy? A definition for Teacher's.* Ar gael yn : <https://www.teachthought.com/learning/what-is-blooms-taxonomy-a-definition-for-teachers/> (Darllenwyd : 09/01/2020)

The Guardian (2006) *Group work benefits pupils, study finds.* Ar gael : <https://www.theguardian.com/education/2006/mar/31/schools.uk2> (Darllenwyd : 10/01/2020)

Neff, S. L. (d.d.) Ar gael yn : <https://jan.ucc.nau.edu/lsn/educator/edtech/learningtheorieswebsite/vygotsky.htm> (Darllenwyd : 12/01/2020)